**Atodiad 2 (A) – Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd Hirwaun**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Hydref 2023 |
| **Amser** | 15:30 |
| **Lleoliad** | Ysgol Gynradd Hirwaun, Hirwaun |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl swydd** |
| Catrin Edwards | CE | Pennaeth y Gwasanaeth Materion Trawsnewid, Systemau Data, Derbyniadau a Llywodraethu |
| Nicola Goodman | NG | Arweinydd Cynllunio Strategol a Model Buddsoddi Cydfuddiannol |
| Kylie Lewis | KL | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Bethan Davies | BD | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Bethan Hill | BH | Pennaeth Ysgol Gynradd Hirwaun |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd Hirwaun |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd CE groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd CE drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Hirwaun i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| Rhif | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Nododd BH fod staff Ysgol Gynradd Hirwaun wedi bod drwy'r broses yma o'r blaen gyda'r newidiadau i Ysgol Gynradd Penderyn. Dywedodd BH fod staff Ysgol Gynradd Hirwaun yn niwtral yn y broses yma; pe bai Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau a disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun, bydd staff yn ymdrechu i weithio'n galed i groesawu disgyblion a sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym. | Wedi'i nodi. |

| Rhif | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 2. | Pe bai Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau, sut byddai hyn yn effeithio ar niferoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun? | Eglurodd BH fod gan Ysgol Gynradd Hirwaun le ar gyfer twf yn y dyfodol ac y gallai gynnwys disgyblion ychwanegol yn y dyfodol. |
| 3. | Pe bai disgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos yn symud i Ysgol Gynradd Hirwaun, pa effaith fyddai hyn yn ei chael ar faint dosbarthiadau? | Eglurodd BH y byddai hyn yn dibynnu ar faint o ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, ac ym mha grŵp blwyddyn y bydden nhw'n ymuno. Mae'n anodd darogan hyn ar hyn o bryd. |
| 4. | A fyddai Ysgol Gynradd Hirwaun yn derbyn cyllid ar gyfer unrhyw ddisgyblion ychwanegol? | Byddai. Eglurodd CE, os cytunir i symud ymlaen â'r cynllun i gau Ysgol Gynradd y Rhigos yn dilyn y broses ymgynghori, a phe bai niferoedd disgyblion yn cynyddu yn Ysgol Gynradd Hirwaun, byddai'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol. |
| 5. | Beth fyddai'r effaith ar amseroedd cinio o ran nifer y staff amser cinio, ac ati? | Eglurodd CE, os cytunir i symud ymlaen â'r cynllun i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, a phe bai niferoedd disgyblion yn cynyddu yn Ysgol Gynradd Hirwaun, byddai'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer recriwtio staff amser cinio ychwanegol. |
| 6. | Ai dim ond disgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos fyddai â hawl i gludiant ysgol i Ysgol Gynradd Hirwaun, neu ddisgyblion y dyfodol hefyd? | Eglurodd CE y byddai gan unrhyw ddisgyblion presennol, ac yn y dyfodol, o’r Rhigos, sy’n byw pellter penodol o Ysgol Gynradd Hirwaun, neu os nad oes llwybr cerdded diogel ar eu cyfer, hawl i gludiant ysgol am ddim yn unol â Pholisi Teithio gan Ddysgwyr y Cyngor. |
| 7. | A fyddai disgyblion Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru yn parhau yn Ysgol Gynradd Hirwaun ym mis Medi 2024? | Eglurodd NG fod disgyblion Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru wedi'u lleoli dros dro yn Ysgol Gynradd Hirwaun tra bod gwaith yn mynd rhagddo yn eu hysgol nhw. Mae’r cynnydd yn y gwaith yna'n ddigon ar hyn o bryd i'r disgyblion ddychwelyd i Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru erbyn Medi 2024. |
| 8. | A fyddai staff o Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael sicrwydd o gyflogaeth yn rhywle arall? | Dywedodd BD wrth y cyfarfod, pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, byddai'r aelodau staff hynny o dan rybudd diswyddo. O dan y Polisi Rheoli Newid, byddai staff yn gymwys i geisio adleoli. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn gweithio'n galed i sicrhau bod staff yn cael eu hadleoli ac mae ganddo brofiadau blaenorol cadarnhaol o hyn. |

| Rhif | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| | | Nododd BH fod staff o ysgolion eraill wedi'u hadleoli i Ysgol Gynradd Hirwaun yn y gorffennol.<br><br>Eglurodd BD y byddai CBSRhCT yn ymgynghori â'r Undebau Llafur a holl staff Ysgol Gynradd y Rhigos i sicrhau deilliannau dymunol.<br><br>Nododd CE y byddai pecynnau colli swydd ar gael ar gyfer y staff hynny a fyddai’n dewis yr opsiwn yna.<br><br>Roedd y staff a’r llywodraethwyr a oedd yn bresennol yn cydnabod bod hwn yn gyfnod emosiynol i bawb yn yr ysgol, a chymuned gyfan Rhigos. |
| 9. | Beth y mae trigolion Rhigos wedi'i ddweud am y cynigion? | Yn rhan o’r broses ymgynghori, eglurodd CE fod sesiynau galw heibio wedi’u trefnu yn y ddwy ysgol ar gyfer aelodau'r cyhoedd i siarad â Swyddogion CBSRhCT i ddweud eu dweud. Ar gyfer y rheiny nad oes modd iddyn nhw fod yn bresennol wyneb yn wyneb, mae modd iddyn nhw gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy lenwi'r arolwg ar-lein. |
| 10. | Nododd aelodau staff a llywodraethwyr pe bai Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau a disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun, byddai'n cael effaith ar ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Felly, dylai rhieni dderbyn gwybodaeth am drafodaethau. | Eglurodd BH ei bod yn anodd cynllunio unrhyw beth ar hyn o bryd hyd nes y byddwn ni'n gwybod canlyniad y cynigion.<br><br>Ailadroddodd CE nad yw'r cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos wedi'i benderfynu ar hyn o bryd. Serch hynny, os mai'r penderfyniad ar ddiwedd y broses yw cau Ysgol Gynradd y Rhigos, byddai CBSRhCT yn cefnogi trosglwyddo disgyblion. |
| 11. | Os penderfynir cau Ysgol Gynradd y Rhigos, a fydd Swyddog CBSRhCT yn dychwelyd i Ysgol Gynradd Hirwaun i egluro camau nesaf y broses? | Cadarnhaodd CE y byddai modd i CBSRhCT drefnu rhagor o gyfarfodydd i drafod y camau nesaf, pe bai angen. |
| 12. | A fyddai unrhyw newid i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun? | Eglurodd CE pe bai nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynyddu, byddai angen edrych ar gyfansoddiad y Corff Llywodraethu i weld a oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Byddai modd adolygu hyn yn ddiweddarach. |

**4. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30.

**Atodiad 2(B) – Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd y Rhigos**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Hydref 2023 |
| **Amser** | 15:30 |
| **Lleoliad** | Ysgol Gynradd y Rhigos, Rhigos |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl swydd** |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Tim Britton | TB | Pennaeth Cyflawniad Rhondda Cynon Taf (Sector Ysgolion Cynradd) |
| Anneli Hunt | AH | Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr 21ain Ganrif |
| Ellen Williams | EW | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Mrs J Mundy | JM | Pennaeth Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraeth ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd y Rhigos |

**5. Croeso a Chyflwyniadau**

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i’r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

**6. Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

**7. Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd y Rhigos i ofyn cwestiynau. Mae’r cwestiynau gan y Corff Llywodraethu ac aelodau staff a’r ymatebion a ddarparwyd wedi’u crynhoi yn y tabl sy’n dilyn.

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | A oes modd i chi egluro pam gafodd gwybodaeth o arolygon a gynhaliwyd yn 2019 ei defnyddio yn y Ddogfen Ymgynghori? | Yr wybodaeth o arolygon cyflwr 2019 yw’r data mwyaf cyfredol sydd ar gael ac mae’n ddilys yn unol â safonau’r diwydiant. |
| 2. | Pam nad aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw? | Mae'r arolygon cyflwr yn cynrychioli pwynt mewn amser ac yn helpu i sefydlu a yw'r adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae rhai atgyweiriadau a |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | | gwelliannau wedi'u gwneud yn Ysgol Gynradd y Rhigos gan GBSRhCT. |
| 3. | Mae dyletswydd ar GBSRhCT i gynnal a chadw'r adeilad. | Rhaid i waith cynnal a chadw adeilad yr ysgol weithio mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethu gan fod gyda nhw gyfrifoldeb o dan Reolaeth Leol ysgolion i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. |
| 4. | Adeiladwyd adeilad y Blynyddoedd Cynnar ym 1950, pam na wnaeth CBSRhCT fynd i'r afael â'r mater pan ddaeth i 'ddiwedd ei oes' (ar ôl 20 mlynedd)? | Mae arolwg cyflwr 2019 yn amlinellu cyflwr yr adeilad ac yn awgrymu bod adeilad yr ysgol wedi cyrraedd diwedd ei oes. Nid yw'r adeilad yn werth buddsoddiad pellach gan GBSRhCT oherwydd oedran, cyflwr a math y strwythur. Mae 115 o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf ac mae CBSRhCT yn gweithio trwy ei Raglen Buddsoddi Moderneiddio Ysgolion ar hyn o bryd. Mae'n her blaenoriaethu buddsoddiad ym mhob ysgol yn Rhondda Cynon Taf, a rhaid i GBSRhCT flaenoriaethu ysgolion sy'n peri'r pryder mwyaf. Er bod adeilad y Blynyddoedd Cynnar yn ddiogel, ni fyddai'n elwa o fuddsoddiad pellach. |
| 5. | Mae gormod o fuddsoddiad yn cael ei roi mewn ysgolion nad ydyn nhw'n llawn. Buddsoddwyd arian yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn ddiweddar gan y gymuned, nid gan GBSRhCT. | Wedi'i nodi. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn yr ysgol a hefyd wedi gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw gyda chefnogaeth y Corff Llywodraeth, oherwydd costau'r gwaith. |
| 6. | Nid yw'r Ddogfen Ymgynghori yn gywir. Nid yw manylion yr adeilad yn gywir. | Tynnwyd manylion yr adeilad o arolwg cyflwr 2019, sef yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. |
| 7. | Pam nad yw Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol wledig? | Mae statws ysgolion gwledig yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gan GBSRhCT y pŵer i ddynodi ysgolion yn ysgolion gwledig. |
| 8. | Pam nad oes unrhyw ysgolion gwledig yn Rhondda Cynon Taf? | Llywodraeth Cymru sy'n pennu ysgolion gwledig. Mae'r holl ysgolion gwledig wedi'u rhestru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). |
| 9. | Rhaid i adeilad yr ysgol fod yn ddiogel gan fod disgyblion yn parhau i'w defnyddio. O ble mae ffigurau nifer y disgyblion a rhagolygon nifer y disgyblion yn dod? Nid yw ffigurau'r dosbarth meithrin yn gywir. | Mae'r adeiladau'n 'ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes' ac yn berffaith ddiogel oherwydd y gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu a'i nodi. Daw rhagolygon nifer y disgyblion o ddata genedigaethau byw o ddalgylchoedd ysgolion. Mae tueddiad o ostyngiad yn y data. Nid yw ffigurau rhagolygon nifer y disgyblion wedi'u gwarantu, fodd bynnag, dyna'r data sydd ar gael ar hyn o bryd. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 10. | Sut y mae modd i ni gredu bod niferoedd y disgyblion yn gywir? | Rhaid i GBSRhCT edrych ar ragfynegiadau a thueddiadau yn seiliedig ar ddata sydd ar gael. Rhaid i GBSRhCT wneud defnydd effeithlon o adnoddau i wneud penderfyniadau anodd yn seiliedig ar y data. |
| 11. | Mae niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun yn yr adroddiad yn anghywir. | Rhaid gweithio gyda'r data a roddwyd i ni ac edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol i ystyried tai yn y dalgylchoedd.<br>Mae'r niferoedd yn gywir, y data a ddefnyddir yw'r mwyaf cywir o setiau data y Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD). Mae'r rhagolygon a chapasiti'r dyfodol yn cynnwys gwybodaeth o'r Cynllun Datblygu Lleol i ystyried tai yn y dalgylch. |
| 12. | Beth fydd yn digwydd os yw disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynd i Ysgol Gynradd Hirwaun, yn ogystal â disgyblion a fydd yn dod o’r tai newydd? | Mae CBSRhCT yn ystyried y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n gynllun am 10 mlynedd. Os nad oes digon o le yn Ysgol Gynradd Hirwaun, yna byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu ac o bosibl cynllun arall yn cael ei roi ar waith. |
| 13. | Pryd dechreuodd CBSRhCT ysgrifennu'r Ddogfen Ymgynghori? | Roedd y penderfyniad i ysgrifennu'r Adroddiad Ymgynghori yn un diweddar. Does dim modd rhoi dyddiad pendant, ond dechreuodd y gwaith ar yr adroddiad yn hwyr yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. |
| 14. | Pam y caniataodd CBSRhCT i ddau aelod parhaol o staff gael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd y Rhigos os oedd yr ymgynghoriad yn benderfyniad diweddar? Does dim cefnogaeth wedi’i rhoi i staff. | Mae cynigion yn hynod gyfrinachol ac ni ellir eu rhannu â rhanddeiliaid cyn iddyn nhw gael eu rhannu ag Aelodau etholedig a'r gymuned ehangach. Mae AD yn darparu cefnogaeth i'n gweithwyr yn ystod y broses rheoli newid. Mae Iechyd Galwedigaethol wedi cynnig, a bydd yn parhau i gynnig, cefnogaeth i staff. Ni all CBSRhCT gymryd yn ganiataol y byddai’r cynnig yn cael ei gytuno, ac felly rhaid mynd drwy’r broses ymgynghori. |
| 15. | Gallai CBSRhCT fod wedi edrych ar ailstrwythuro ysgolion – nid oes unrhyw gynlluniau wrth gefn. | Roedd hwn yn gynnig cyfrinachol; ni ellid bod wedi rhannu unrhyw wybodaeth yn eang. Mae'r cynigion yma'n emosiynol iawn ac mae CBSRhCT wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol wrth gefnogi staff sydd angen dod o hyd i rolau newydd. |
| 16. | Pryderon am ddisgyblion wrth symud ysgol. | Mae’r broses newid ysgol yn cael ei rheoli a bydd disgyblion yn derbyn cymorth gyda'r broses bontio os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 17. | Pryderon ynghylch lles disgyblion a staff. Dim amser i brosesu'r newyddion. Dylai staff fod wedi derbyn hyfforddiant a chymorth wrth ymdrin â disgyblion ar ôl i'r Ddogfen Ymgynghori gael ei chyhoeddi. | Wedi'i nodi. |
| 18. | Ddim o'r farn y bydd staff yn cael eu cefnogi. | Wedi'i nodi. |
| 19. | Sut y mae modd i GBSRhCT ddweud nad oes modd i Ysgol Gynradd y Rhigos gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru? Mae'r datganiadau yn y ddogfen Ymgynghori yn agored i'w herio. Er bod CBSRhCT yn cydnabod bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol dda, mae rhai o'r datganiadau a wnaed yn niweidiol. | Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi y bydd ysgol fwy yn helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae modd rhoi adborth i GBSRhCT yn rhan o'r ymgynghoriad. |
| 20. | A yw CBSRhCT yn hyrwyddo methiant? Nid yw ysgolion da yn cael buddsoddiad tra bod ysgolion eraill yn. Pe baem ni’n ysgol a oedd yn methu, a fydden ni wedi cael buddsoddiad? | Mae'n dda bod Ysgol Gynradd y Rhigos wedi gwneud yn dda, a bydd Estyn hefyd yn rhoi adborth i'r ymgynghoriad. Mae modd cynnwys unrhyw sylwadau yn rhan o’r adborth i GBSRhCT yn rhan o'r ymgynghoriad a'r broses bontio. |
| 21. | A yw'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud? | Nac ydy. Dyw'r penderfyniad heb ei wneud. Bydd Cabinet CBSRhCT yn gweld yr holl sylwadau a gyflwynir yn rhan o’r broses ymgynghori a’r cyfarfodydd sy’n cael eu cynnal. |
| 22. | Pe bydden ni’n aros, a fyddai Rhigos yn cael ysgol newydd? | Rhaid i GBSRhCT edrych ar gost buddsoddi yn erbyn niferoedd disgyblion. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn edrych ar bob pwynt ac agwedd sy'n rhan o'r achos yma. |
| 23. | Rydych chi'n defnyddio Ysgol Gynradd y Rhigos fel plastr ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun. | Wedi'i nodi. |
| 24. | Mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael ymweliadau gan Seicolegwyr Addysg ar hyn o bryd, fel y mae Ysgol Gynradd Hirwaun. Byddai'r ymweliadau yma'n cael eu colli pe bai disgyblion yn mynd i Ysgol Gynradd Hirwaun. | Mae nifer y sesiynau ar gyfer pob ysgol yn cael ei ystyried, ac mae modd gwneud ceisiadau am ymweliadau pellach os oes angen. Ni fydd unrhyw ymweliadau gan Seicolegwyr Addysg yn cael eu colli. |
| 25. | Bydd mwy o alw o ran gofynion anghenion dysgu ychwanegol ar staff Ysgol Gynradd Hirwaun. | Mae'n debygol y bydd mwy o gapasiti ar gyfer adnoddau i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY yn Ysgol Gynradd Hirwaun gan ei bod yn ysgol fwy. Mae gan staff Ysgol Gynradd Hirwaun ddyletswydd i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | | eu diwallu a bod darpariaeth yn cael ei gwneud. |
| 26. | Sut bydd disgyblion yn cael mynediad at y clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun? Mae disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn cerdded i'r clwb brecwast ar hyn o bryd. | Mae clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran amser clwb brecwast Ysgol Gynradd Hirwaun, ac o brofiad, efallai bydd modd cynnig clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun maes o law i blant sy’n defnyddio cludiant ysgol (cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau). |
| 27. | A fydd unrhyw gludiant ar gyfer clybiau ar ôl ysgol? | Ni fydd cludiant ychwanegol ar gyfer clybiau ar ôl ysgol. Penderfyniad y Corff Llywodraethu yw rheoli clybiau ar ôl ysgol. |
| 28. | Bydd dim cludiant ar gyfer clybiau ar ôl ysgol yn lleihau nifer y gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos. Ar hyn o bryd, mae tua 70% o ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol. | Wedi'i nodi. |
| 29. | Beth os na fydd disgyblion yn mynd i Ysgol Gynradd Hirwaun? | Does dim modd i GBSRhCT reoleiddio i ba ysgol y mae rhieni yn anfon eu plant. Mae hwn yn fater i'r rhieni, ac mae modd iddyn nhw ddewis o'r ysgolion sydd ar gael. |
| 30. | Faint fyddai bws yn ei gostio i gludo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun? | Byddai hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion fyddai angen cludiant. |
| 31. | Mae anhrefn yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn ystod amser casglu, roedd camerâu yno wythnos diwethaf i edrych ar dagfeydd traffig. | Mae modd mynegi pryderon yn rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. |
| 32. | A yw'r trefniadau wedi'u cadarnhau ai peidio? | Nid yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto – cynnig yw hwn. Byddai’n rhaid i unrhyw rieni nad ydyn nhw am anfon eu plant i Ysgol Gynradd Hirwaun wneud trefniadau i wneud cais i ysgolion eraill sydd ar gael os caiff y cynnig i gau ei gymeradwyo. |
| 33. | Mae ceisiadau i GBSRhCT i dderbyn disgyblion i Ysgol Gynradd y Rhigos eisoes yn cael eu cyfeirio at Ysgol Gynradd Hirwaun. | Dydy hyn ddim yn wir. |
| 34. | Mae'r broses yma yn tanseilio rhieni. Mae dyletswydd i rieni, disgyblion a staff – dylai’r broses dawelu meddwl rhieni mai cynnig yn unig ydyw ar hyn o bryd. | Bydd y gymuned yn cael cyfle i leisio pryderon yn ystod y sesiynau galw heibio sydd wedi’u trefnu. |
| 35. | Mae rhieni yn hapus gyda dosbarthiadau cymysg yr ysgol a dylai CBSRhCT barchu hynny. | Bydd y gymuned yn cael cyfle i leisio pryderon yn y sesiynau galw heibio a drefnir. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 36. | Beth sy'n digwydd i rieni sy'n ystyried gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd y Rhigos ond sy'n cael eu cyfeirio at Ysgol Gynradd Hirwaun? | Nid yw hyn yn wir, mae modd i rieni wneud cais am le yn yr ysgol. |
| 37. | Sut bydd rhieni'n cael sicrwydd mai cynnig yn unig yw hwn? | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hon yn broses gymhleth a bod llawer o wybodaeth i fynd drwyddi sy'n rhan o'r ymgynghoriad. |
| 38. | Nid yw'r ddelwedd o Ysgol Gynradd y Rhigos yn y Ddogfen Ymgynghori yn cynrychioli'r ysgol ac mae'n rhoi argraff wael. Nid oes unrhyw ddelweddau mewnol o'r ysgol wedi'u defnyddio (fel sydd gydag Ysgol Gynradd Hirwaun) – mae hyn yn gwneud i Ysgol Gynradd y Rhigos edrych yn wael wrth ymyl y delweddau o'r ysgol newydd yn Hirwaun. | Wedi'i nodi. |
| 39. | Pryd bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a phryd bydd y penderfyniad yn cael ei wneud? | Bydd yr adroddiad yn mynd i Gabinet CBSRhCT ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud i symud ymlaen gyda'r broses a dechrau'r cyfnod rhybudd statudol. Bydd yr holl ddyddiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael i bob rhanddeiliad. Mae modd i unrhyw sylwadau i'r ymgynghoriad gael eu defnyddio fel gwrthwynebiad os yw'r unigolyn yn dymuno. |
| 40. | Sut bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn dysgu am gymuned Rhigos, yn lle dysgu am Hirwaun? Mae pryderon ynghylch colli treftadaeth. | Nid yw'r ysgolion yn bell oddi wrth ei gilydd. Gwnewch unrhyw sylwadau yn hysbys yn rhan o'r broses ymgynghori. |

**8. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Cafodd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00.

**Atodiad 3 (A) – Cofnodion o Gyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Hirwaun**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023 |
| **Amser** | 13:50 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl swydd** |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Tim Britton | TB | Pennaeth Cyflawniad (Sector Ysgolion Cynradd) |
| Mrs Bethan Hill | BH | Pennaeth Ysgol Gynradd Hirwaun |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Hirwaun |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd y Cyngor Ysgol eu hunain.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

3. **Cwestiynau'r Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gynradd Hirwaun i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae’r cwestiynau a’r sylwadau a wnaed wedi’u crynhoi yn y tabl sy’n dilyn ynghyd â’u hymateb, lle bo angen.

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Rydw i o'r farn y dylen ni fwrw ymlaen â’r cynnig ond efallai y bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos am aros gyda’u ffrindiau. | Bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn ceisio cadw grwpiau ffrindiau gyda'i gilydd. |
| 2. | Byddai'n dda gwneud mwy o ffrindiau. | Wedi'i nodi. |
| 3. | Mae’n braf i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos gael mwy o le. | Wedi'i nodi. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 4. | Byddai'n bleser i gael disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yma gyda ni yn Ysgol Gynradd Hirwaun. | Wedi'i nodi. |
| 5. | Mae’n braf i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos brofi rhai o’r cyfleusterau sydd gyda ni yma yn Ysgol Gynradd Hirwaun. | Wedi'i nodi. |
| 6. | Beth fyddai'n digwydd i athrawon Ysgol Gynradd y Rhigos? | Mae’n rhy gynnar i ddweud pa newidiadau all ddigwydd gan nad yw’r cynnig wedi’i benderfynu eto. |
| 7. | Soniodd y disgyblion am rai o’r clybiau sy’n cael eu cynnal yn Ysgol Gynradd Hirwaun gan gynnwys:<br>• Côr<br>• Pêl-droed<br>• Garddio<br>• Rygbi<br>• Pêl-rwyd<br>• Ffitrwydd<br>• Codio<br>• Ffrangeg<br>• Celf a Chrefft<br>• Beat Ball<br><br>Mae disgyblion blwyddyn 3 hefyd yn cymryd rhan mewn gwersi nofio. | Wedi'i nodi. |
| 8. | Soniodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun am eu gweledigaeth. Eglurwyd bod hyn yn cael ei drafod eto o bryd i'w gilydd. | Wedi'i nodi. |
| 9. | Soniodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun am ddysgu ar sail ymholiad a’r manteision y mae hyn yn ei gael ar eu dysgu. | Wedi'i nodi. |
| 10. | Dywedodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun y bydden nhw'n croesawu plant Ysgol Gynradd y Rhigos sy'n ymweld â'u hysgol.<br><br>Dywedodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun y bydden nhw'n dangos y canlynol i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos:<br>• Y Chromebooks<br>• Adnoddau dysgu<br>• Pa mor garedig yw cymuned yr ysgol<br>• Ble mae'r teganau yn cael eu cadw<br>• Y clybiau ar ôl ysgol<br>• Y darnau celf y maen nhw wedi gweithio arnyn nhw<br>• Y cyfleusterau chwaraeon | Wedi'i nodi. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | • Cynllun yr ysgol a sut mae'r diwrnod ysgol yn gweithredu<br>• Yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd<br><br>Dywedodd y disgyblion y byddai achlysur pontio da yn cynnwys:<br>• Gweithgareddau crefft a chreu posteri i groesawu disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos<br>• Gweithgareddau cyfeillgar i ddod i adnabod ei gilydd<br>• Gorsafoedd gwaith gwahanol<br>• Amser cylch<br>• Amser chwarae (yn Ysgol Gynradd Hirwaun mae un cyfnod amser chwarae ac amser cinio). | |
| 11. | Eglurodd y pennaeth fod Ysgol Gynradd Hirwaun ar agor i’r gymuned leol ar adegau arbennig o’r flwyddyn i ddathlu gyda’r gymuned, megis y Cynhaeaf a’r Nadolig.<br><br>Mae'r plant yn Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd yn mynd allan i'r gymuned a dywedon nhw y bydden nhw'n hapus i ymestyn hyn i gymuned Rhigos. | Wedi'i nodi. |
| 12. | Dywedodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd eu bod nhw'n cynnal ffair lyfrau bob blwyddyn. Mae disgyblion blwyddyn chwech yn cael y cyfle i weithio a helpu yn y ffair lyfrau. | Wedi'i nodi. |
| 13. | Dywedodd plant Ysgol Gynradd Hirwaun eu bod yn cael achlysuron hwyliog megis disgos ysgol. | Wedi'i nodi. |
| 14. | Mae llawer o bwyllgorau yn Ysgol Gynradd Hirwaun, megis:<br>• Cyngor Ysgol<br>• Pwyllgor Ysgolion sy'n Parchu Hawliau<br>• Eco-bwyllgor<br>• Arweinwyr Chwaraeon<br>• Criw Cymraeg<br><br>Caiff y rhain eu penodi bob mis Medi, felly os aiff y cynnig yn ei flaen byddai croeso i blant Ysgol Gynradd y Rhigos gymryd rhan. | Wedi'i nodi. |
| 15. | Beth y mae disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn meddwl am symud ysgolion? | Maen nhw'n poeni ychydig am symud. Mae disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos wrth eu boddau gyda'u hysgol a dydyn nhw ddim |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | | eisiau i'r ysgol gau. Serch hynny, rydyn ni'n gwrando ar farn pob un ohonoch chi, a byddan nhw'n rhan o unrhyw benderfyniad a wneir. |
| 16. | Byddwn ni'n agor arwerthiant dillad yn rhan o'r Clwb Eco. | Mae hwn yn syniad gwych i fod yn adnewyddadwy. |
| 17. | Pa liw yw gwisg ysgol disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos? | Mae disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn gwisgo siwmperi lliw gwin (burgundy). |
| 18. | Pa mor hir ydych chi wedi gweithio i'r Cyngor? | Rhoddodd yr holl swyddogion amlinelliad o ba mor hir y maen nhw wedi gweithio yn y Cyngor a pha swydd y maen nhw'n ei wneud. |
| 19. | Soniodd disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun am y teithiau ysgol maen nhw wedi bod arnyn nhw, gan gynnwys:<br>• Pantomeim<br>• Heatherton<br>• Castell Caerffili<br>• Ogof Siôn Corn<br>• Fferm Cantref<br>• Llwybr y Gryffalo<br>• Parc Gwledig Cwm Dâr<br>• Picnic y Tedis<br><br>Mae ymwelwyr hefyd yn dod i'r ysgol, gan gynnwys:<br>• Deinosoriaid animeiddiedig<br>• Arddangosfa'r Ail Ryfel Byd. | Wedi'i nodi. |

**4. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:45.

**Atodiad 3 (B) – Cofnodion o Gyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd y Rhigos**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Llun 6 Tachwedd 2023 |
| **Amser** | 13:45 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl swydd** |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Sarah Corcoran | SC | Pennaeth Cyflawniad a Lles |
| Mrs Janine Mundy | JM | Pennaeth Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Mrs Rebecca Murphy | RM | Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd y Rhigos |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd y Cyngor Ysgol eu hunain.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Cyflwynodd y plant gyflwyniad PowerPoint o'r enw 'Save our School'. Diolchwyd i'r disgyblion. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei rannu gyda Chabinet y Cyngor.

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

3. **Cwestiynau'r Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gynradd y Rhigos i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn ynghyd â'u hymateb, lle bo angen.

| **Rhif** | **Cwestiynau** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | Beth os nad yw eich rhieni yn gyrru ac rydych chi'n colli'r bws ysgol? | Os ydych chi'n colli'r bws, bydd angen i chi wneud eich trefniadau eich hunain. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | | Bydden ni'n gobeithio na fyddech chi'n colli'r bws, gan fod y rhan fwyaf o rieni yn drefnus iawn ac yn eich helpu chi i ddal y bws ysgol mewn pryd. |
| 2. | Beth fyddwch chi'n ei wneud gydag Ysgol Gynradd y Rhigos os bydd yn cau? | Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, byddwn ni'n gweithio gyda chymuned Rhigos i weld a oes modd defnyddio adeilad yr ysgol yn y gymuned. |
| 3. | A fydd bysiau ar gyfer y clwb brecwast a'r clwb ar ôl ysgol? | Bydd un bws i'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn dibynnu ar amser y clwb brecwast a'r cludiant o'r cartref i'r ysgol, efallai y bydd modd i chi fynychu'r clwb brecwast. |
| 4. | Rydw i wedi symud ysgol llawer ac nid yw'n braf. Nid oes gan rai ysgolion gynifer o amserau chwarae ag sydd gyda ni yn Ysgol Gynradd y Rhigos, ac mae gyda  nhw ddosbarthiadau mwy. | Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion dri amser chwarae, ond byddwn ni'n gwirio faint o amseroedd chwarae sydd gyda nhw yn Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| 5. | Pam ydych chi eisiau cau Ysgol Gynradd y Rhigos? | Gwnaethon ni egluro'r pwyntiau a drafodwyd eisoes yn y fersiwn addas i blant o'r Ddogfen Ymgynghori |
| 6. | Beth am ein brodyr a chwiorydd? | Bydd gan rieni'r dewis ynghylch pa ysgol gynradd yr hoffen nhw i'w plentyn ei fynychu. Os oes gyda chi frodyr a chwiorydd, bydd digon o le iddyn nhw fynychu Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| 7. | A fyddai modd i ni i gyd fynd ar yr iard amser chwarae ar yr un pryd, fel yn Ysgol Gynradd y Rhigos? | Byddwn ni'n gwirio sut mae amseroedd chwarae yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn gweithredu. |
| 8. | Pan ddaeth Ysgol Gynradd Penderyn yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, roedd yn rhaid i mi adael a mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos, ysgol cyfrwng Saesneg. Os bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau, byddai hynny'n golygu y bydd yn rhaid imi newid ysgol eto. | Mae'n ddrwg gyda ni i glywed hyn. |
| 9. | Pryd byddwn ni'n cael gwybod a fydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau? | Yn ôl amserlen yr ymgynghoriad, os caiff y cynnig ei gymeradwyo byddai'n mynd yn ei flaen erbyn mis Medi 2024. |
| 10. | A fyddwch chi'n trefnu dyddiau y mae modd i ni ymweld ag Ysgol Gynradd Hirwaun? | Yn bendant, mae hwn yn syniad da, a byddwn ni'n gwneud trefniadau i holl ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos ymweld ag Ysgol Gynradd Hirwaun os dymunan nhw wneud hynny. |
| 11. | A fydd yn rhaid i ddisgybl blwyddyn chwech symud i Ysgol Gynradd y Rhigos cyn dechrau yn yr ysgol gyfun? | Na, os cytunir ar y cynigion yma, bydden nhw'n cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2024. Erbyn y dyddiad yma, byddai disgyblion sydd ym mlwyddyn chwech ar |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| | | hyn o bryd yn dod yn ddisgyblion blwyddyn saith a bydden nhw yn yr ysgol uwchradd. |
| 12. | Os ydyn ni'n gwneud ffrindiau a dydyn nhw ddim yn byw yn Rhigos, a fyddai modd iddyn nhw chwarae yn ein parc ni? | Rydw i'n siŵr y bydd modd i'ch rhieni chi drefnu hynny. |
| 13. | Byddai'n braf mynd i ysgol newydd. | Yn aml, y bobl sydd wrth wraidd lle, ac rydyn ni'n deall pa mor bwysig yw Ysgol Gynradd y Rhigos i chi i gyd. |
| 14. | Pam ydych chi'n symud y cynnig yn ei flaen os ydyn ni'n dweud nad ydyn ni eisiau i Ysgol Gynradd y Rhigos gau? | Gwnaethon ni egluro'r pwyntiau a drafodwyd eisoes yn y fersiwn addas i blant o'r Ddogfen Ymgynghori |
| 15. | Mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i fod mewn cyflwr eithaf da. | Rydyn ni'n gallu gweld eich bod chi wedi creu amgylchedd ardderchog. |
| 16. | A gawn ni ddysgu drwy'r ymholiadau rydyn ni wedi'u dewis o hyd? | Dechreuodd y Cwricwlwm newydd i Gymru'r llynedd, ac mewn llawer o ysgolion caiff ei addysgu drwy ddull sy'n seiliedig ar ymholi. Byddwn ni'n gwirio pa ddull sy'n cael ei ddefnyddio yn Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| 17. | Os bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau, a fydd angen i ni newid ein gwisg ysgol? | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun ei gwisg ysgol ei hun. Does dim modd i ni gadarnhau y byddai gwisg ysgol Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei newid ar unwaith, ond fe all hyn ddigwydd yn y pen draw. |
| 18. | Sut byddwch chi'n ein helpu ni i fod yn rhan o weledigaeth ysgol wahanol? | Mae gweledigaeth unrhyw ysgol yn ymwneud â sicrhau'r addysgu a'r dysgu gorau i blant, a bydden ni'n gobeithio bod Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynhwysol a fydd yn eich helpu i deimlo'n rhan o bethau.<br><br>Yn ogystal â hyn, bydd achlysuron pontio yn cael eu trefnu i chi ymweld ag Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| 19. | Os symudwn ysgol, a fydd modd i ni gael disgos a gwasanaethau ysgol? | Rydyn ni'n siŵr y bydd y rhain yn cael eu cynnig yn Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| 20. | A fydd modd i'n hathrawon a'n ffrindiau ddod gyda ni? | Mae'n rhy gynnar i ddweud pa newidiadau all ddigwydd gan nad yw'r cynnig wedi'i gymeradwyo eto. |
| 21. | Ydych chi'n mynd i ddod â'r fenyw hynaf i Ysgol Gynradd Hirwaun? | O bosibl, mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gymunedol, a bydden nhw'n croesawu aelodau o'r gymuned i ymweld â'r ysgol. |
| 22. | A fydd y Cyngor Ysgol yn newid? | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun lawer o glybiau, sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan. |

| Rhif | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| 23. | Pam gwnaethoch chi ddewis Ysgol Gynradd Hirwaun? | Fe wnaethon ni edrych ar lawer o bethau, gan gynnwys niferoedd disgyblion, pa mor agos yw Ysgol Gynradd y Rhigos i ysgol arall. Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun lawer o le ac mae'n agos i Ysgol Gynradd y Rhigos.<br><br>Mae modd i newid fod yn rhywbeth sy'n peri poen meddwl; serch hynny, mae modd iddo fod yn brofiad cadarnhaol sy'n cynnig llawer o gyfleoedd. |
| 24. | A fydd tîm pêl-droed yn Ysgol Gynradd Hirwaun? | Byddwn ni'n gwirio gyda'r ysgol ond rydyn ni'n gwybod eu bod yn cymryd rhan mewn llawer o chwaraeon a gweithgareddau. |
| 25. | A oes clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun? | Oes, mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun glwb brecwast. |
| 26. | Fy mhennaeth i yw'r pennaeth gorau. | Rydyn ni'n falch eich bod chi'n teimlo'n hapus gyda'ch pennaeth. |
| 27. | Dydw i ddim eisiau newid ysgol oherwydd rydyn ni'n meddwl mai Ysgol Gynradd y Rhigos yw'r ysgol orau. | Rydyn ni'n falch eich bod chi'n teimlo'n hapus gyda'ch ysgol. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:50.